



Dewi Sant, Nawddsant Cymru

https://upload.wikimedia.org/wikipedia/commons/8/83/Saint_Non%27s_Chapel_-_Fenster_5_St.David_top.jpg



Gwydr lliw addurniadol gan Catrin Jones yn Ysbyty Cwmbrân: ar thema llesiant.

<https://www.catrinjones.co.uk/healthcare/grange-hospital>

Deunyddiau Cymorth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Syniadau i gefnogi CGM ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau

Y Grŵp Oedran a Awgrymir:
plant 10-11 oed

Sut y mae gwydr lliw a chelf o Gymru yn mynegi ysbrydolrwydd?
Crefyddau a chredoau:
Cristnogaeth, Ysbrydol ond heb fod yn grefyddol.



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council



Cyngor Abertaweili
Swansea Council

PARTNERIAETH

RE Today
Services

Mae hwn yn un o gyfres o ddeunyddiau cymorth ar gyfer CGM a luniwyd at ddefnydd athrawon, gyda'r nod o osod safonau uchel wrth astudio crefydd, gwerthoedd a moeseg. Cynigir yr adnoddau hyn i fod yn awgrymiadau i alluogi dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth mewn perthynas â chrefydd a chred, a hynny mewn ffyrdd sy'n meithrin pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac yn cynnig cyfleoedd i archwilio'r themâu trawsbynciol a datblygu sgiliau disgyblaethol a sgiliau ehangach. Maent wedi cael eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig a'r Camau Cynnydd ym MDPH y Dyniaethau. Ni fwriedir i unrhyw beth yn y deunyddiau hyn fod yn rhagnodol. Atgoffir athrawon fod CGM i gael ei ddarparu gyda golwg ar y Maes Llafur Cytunedig Lleol ac egwyddor sybsidiaredd. Gallwch gyrchu'r gyfres o gynlluniau ac adnoddau ategol yma: www.retoday.org.uk/rvewales

Cefnogi CGM yn Cwricwlwm i Gymru

Bwriad y deunyddiau hyn yw rhoi syniadau i athrawon a'u hysbrydoli i gefnogi CGM beirniadol, gwrthrychol a phlwrailaethol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru a'u maes llafur cytunedig lleol. Ni fwriedir i'r deunyddiau ragnodi cynnwys, na chysiau dysgu penodol. Rydym yn annog athrawon i fod yn hyblyg, yn greadigol ac yn ddetholus wrth ddefnyddio'r deunyddiau hyn. Mae sybsidiaredd yn egwyddor allweddol yn Cwricwlwm i Gymru, felly dylai athrawon arfer barn broffesiynol, ac ymgysylltu'n feirniadol â'r deunyddiau hyn, i sicrhau bod CGM yn eu hysgol yn adlewyrchu eu cyd-destun lleol ynghyd ag anghenion y dysgwyr, ac yn bodloni gofynion statudol. Gellir addasu a diwygio'r deunyddiau, a'u defnyddio mewn modd mor ddetholus neu mor gynhwysfawr ag sy'n briodol i gyd-destun unigol pob ysgol.

Gwybodaeth am yr adnoddau hyn

Mae Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) Abertawe yn ddiolchgar am y cyllid a gafodd gan ymddiriedolaeth [Westhill Endowment](#), cyllid a'i gwnaeth yn bosibl cyflawni'r gwaith hwn.

Lluniwyd y deunyddiau hyn i gefnogi CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ganlyniad i gydweithrediad rhwng CYSAG Abertawe ac RE Today Services.

Mae [RE Today](#) Services yn elusen addysgol sefydledig ac uchel ei pharch sy'n gweithio yn y DU ac yn rhyngwladol i roi addysg eang a chytbwys i blant i'w cefnogi yn y byd y maent yn byw ynddo, a hynny trwy addysgu Addysg Grefyddol o ansawdd uchel mewn ysgolion. Ysgrifennwyd y deunyddiau hyn gan Lat Blaylock, golygydd y cylchgrawn *RE Today*, a Chynghorydd Cenedlaethol ar Addysg Grefyddol, ac Angela Hill, sy'n Gynghorydd Cenedlaethol i RE Today yng Nghymru.

Jennifer Harding-Richards, Ymgynghorydd ar Addysg Grefyddol i'r awdurdodau lleol yn rhanbarth Partneriaeth, yw cyfarwyddwr y prosiect ar gyfer y deunyddiau cymorth hyn. Gellir cysylltu â hi trwy anfon neges e-bost at:

Jennifer.Harding-Richards@swansea.gov.uk

Gobeithio y bydd yr adnoddau hyn yn ddefnyddiol ac yn ddifyr i'w defnyddio. Croesewir adborth adeiladol. Byddwn yn ddiolchgar iawn bob amser am enghreifftiau o waith dysgwyr a luniwyd trwy ddefnyddio'r syniadau yn y deunyddiau hyn.

Teitl: Sut y mae gwydr lliw a chelf o Gymru yn mynegi ysbrydolrwydd?

Y Grŵp Oedran a Awgrymir: plant 10-11 oed (Blwyddyn 6 neu 7)

Crefyddau/argyhoeddiadau athronyddol: Cristnogaeth, Ysbrydol ond heb fod yn grefyddol

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn ofyniad statudol yn Cwricwlwm i Gymru, ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae CGM yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r Maes yn cynnwys Daearyddiaeth; Hanes; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu nifer o themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy cyffredin, er bod ganddynt eu corff penodol o wybodaeth a sgiliau eu hunain. Mae'r enghreifftiau hyn o gynllunio yn canolbwyntio ar CGM.

Yn ôl y gyfraith, rhaid i CGM fod yn feirniadol, yn wrthrychol ac yn blwraliaethol: mae'r enghreifftiau hyn o gynllunio yn cymhwyso'r egwyddorion hyn.

Gwybodaeth am yr astudiaeth achos hon sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer CGM:

Mae Cwricwlwm i Gymru yn gosod astudiaethau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Mae'r enghraifft hon o gynllunio yn rhoi cynlluniau ymarferol o ansawdd uchel i athrawon sy'n ceisio arddangos dysgu da ym maes CGM.

Mae'r enghraifft hon o gynllunio yn galluogi'r dysgwyr i feithrin gwybodaeth gyfoethog am ffurf gelfyddydol gwydr lliw, sydd â hanes hir o ddefnydd yn eglwysi Cymru, ac a ddefnyddir hefyd i fynegi ysbrydolrwydd mewn lleoliadau pensaernïol anghrefyddol.

Byddant yn darganfod, yn archwilio ac yn ymholi i gwestiynau am y modd y mae pobl wahanol yn mynegi eu hysbrydolrwydd trwy'r celfyddydau, gan ddadansoddi enghreifftiau gwahanol o ysbrydolrwydd a diwylliant yng Nghymru.

Bydd y gwaith yn gosod safonau uchel ym maes CGM trwy ddefnyddio enghreifftiau Cymreig lleol a chenedlaethol o gelfyddyd gwydr lliw i astudio storïau Beiblaidd, gwerthoedd ysbrydol, hanes ffydd yng Nghymru a mynegiant cred, dirnadaeth ysbrydol a/neu ddefosiwn.

Bydd profiadau dysgu yn cynnwys gweithio gyda deunyddiau orielau ar-lein ac ymweliadau maes lleol.

Mae'r gwaith yn enghraifft annatod o le CGM ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau yn Cwricwlwm i Gymru 2022, gan gysylltu CGM â Hanes, Daearyddiaeth ac Astudiaethau Cymdeithasol.

Amcangyfrif o'r amser y bydd yn ei gymryd i gyflawni'r gwaith hwn (mewn oriau) 8-10 awr o amser addysgu. Byddwch yn ddetholus a gnewch y gwaith y mae angen i'ch ysgol ei wneud yn fanwl, yn hytrach nag ymdrin â gormod o gynnwys mewn modd arwynebol. Ym maes CGM, mae ar y dysgwyr angen cyfleoedd i fyfyrion ddwfn ar gwestiynau a syniadau mawr: weithiau, gall fod yn ddoeth caniatáu i'r dysgwyr 'aros yn hirach a chloddio'n ddyfnach'.

Lle y mae'r enghraifft hon o gynllunio yn ffitio:

Gall y cynllun hwn adeiladu ar waith CGM blaenorol, er enghraifft astudiaethau cynharach yn ymwneud â Christnogaeth, y celfyddydau mynegiannol a naratif y Beibl. Gall athrawon barhau i archwilio a dyfnhau'r dysgu am bensaernïaeth Gristnogol a'r celfyddydau creadigol. Mae'r cynllun hwn yn paratoi'r dysgwyr ar gyfer dysgu pellach, er enghraifft, mae holl fanylebau TGAU Astudiaethau Crefyddol yn cynnwys cyfeiriad at fynegiant ysbrydol trwy'r celfyddydau.

Mae'r cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau yn amlwg mewn sawl man yn y gwaith hwn, a gellir eu gweld fel ffordd o weithio ochr yn ochr neu mewn modd integredig ag Astudiaethau

Cymdeithasol, Hanes a Daearyddiaeth. Gellir creu cysylltiadau hefyd â MDPH y celfyddydau creadigol.

Bwriad y cynllun yw herio'r dysgwyr i wneud cynnydd tuag at y safonau uchaf posibl trwy ddarparu dysgu cyfoethog am enghreifftiau lleol, cenedlaethol a byd-eang o gelfyddyd gwyrdd lliw, ac am y syniad o fod yn 'ysbrydol ond heb fod yn grefyddol', ac am hunaniaeth Gristnogol. Rhan allweddol o'r uned yw'r gweithgaredd creadigol y mae'r dysgwyr yn cymryd rhan ynddo drostynt eu hunain.

Cwricwlwm i Gymru: Yr Hyn sy'n Bwysig (Pedair Blaenoriaeth MDPH y Dyniaethau)	Sut y mae'r enghraifft hon o gynllunio ar gyfer CGM yn cysylltu â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?
Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.	- Bydd y dysgwyr yn archwilio crefydd a bywyd ysbrydol byw, yn y presennol, gan gynnwys enghreifftiau o gelfyddyd gwydr lliw o bob cwr o Gymru. - Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth gynyddol am hanes crefyddol ac ysbrydol Cymru.
Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn ffyrdd gwahanol.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu am gymhlethdodau hunaniaeth grefyddol, perthyn, gwerthoedd ac argyhoeddiadau. - Byddant yn dysgu dehongli beth y mae'n ei olygu i fod yn Gristion, neu i fod yn 'ysbrydol ond heb fod yn grefyddol'.
Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac yn cael eu llunio gan weithredoedd a chredoau dynol.	- Bydd y dysgwyr yn darganfod y modd y mae pobl o grefyddau amrywiol ac sy'n meddu ar fydolgyon gwahanol (Cristnogaeth yn yr achos hwn), a'r rheiny sy'n eu hystyried eu hunain yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, yn mynegi eu credoau a'u gwerthoedd. - Bydd y dysgwyr yn meithrin ymwybyddiaeth, o'r gweithgareddau artistig a chreadigol, o'r hyn yr ydym yn ei olygu pan fyddwn yn siarad am 'ysbrydolrwydd'.
Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyriol a moesegol.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu am amrywiaeth ac yn ystyried yr hyn y mae'n ei olygu i bobl â bydolygon gwahanol ymgysylltu â syniadau a materion mawr. - Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth am werthoedd, gan gynnwys yr heriau o ddod o hyd i werthoedd a rennir mewn cymdeithas luosol, ac yn sicrhau dealltwriaeth o hynny.

Themâu, sgiliau a dibenion

Yn unol â gofynion y canllawiau CGM, mae'r enghreifftiau hyn o gynllunio astudiaethau achos wedi cael eu llunio i gyd-fynd â model o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm sy'n ymgorffori cyfleoedd priodol i ddysgu am themâu trawsbynciol yn Cwricwlwm i Gymru, a'u hystyried. Mae'r themâu trawsbynciol hyn fel a ganlyn: gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith; hawliau dynol; amrywiaeth; cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb. Rydym hefyd wedi rhoi sylw yma i bwysigrwydd sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â'r sgiliau sy'n rhan annatod o'r pedwar diben (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Mae'r holl faterion croestoriadol hyn wedi'u hymgorffori yn y modd y mae'r cynlluniau hyn wedi'u creu.

Cliciwch ar y ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

Egwyddorion cynnydd CGM ar waith:	Cyfrannu at gynnydd ym maes CGM
Cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth.	- Bydd y dysgwyr yn dod i wybod am gelfyddyd gwydr lliw, ysbrydolrwydd a mynegiant rhyfeddod a syfrdandod yn y celfyddydau. - Bydd y dysgwyr yn meithrin gwybodaeth gyfoethog am enghreifftiau Cymreig o gelfyddyd gwydr lliw.
Dyfnhau dealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.	- Yn syml, bydd y dysgwyr yn defnyddio dulliau penodol o faes astudiaethau crefyddol i wneud mwy o synnwyr o'r byd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gelf ac ysbrydolrwydd. - Bydd y dysgwyr yn cael profiad o ddefnyddio disgyblaethau gwahanol yn eu hastudiaethau CGM, gan gynnwys hanes celf a beirniadaeth, astudiaeth gymdeithasol o gelf grefyddol, a syniadau Beiblaidd ac ysbrydol.
Mireinio sgiliau, a magu soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso.	- Bydd y dysgwyr yn ymarfer sgiliau awgrymu ystyron, gwneud synnwyr o ddeunyddiau crefyddol a dehongli credoau a gwerthoedd ar lefelau sy'n briodol i'w hoedran. - Bydd y dysgwyr yn meithrin dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o wneud synnwyr o grefydd a chredoau, a hynny trwy amrywiaeth eang o ddulliau dysgu, gan gynnwys hunaniaeth bod yn 'ysbrydol ond heb fod yn grefyddol'.
Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd.	- Anogir y dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng crefyddau a bydolygon gwahanol. - Bydd y dysgwyr y cael eu herio i ddefnyddio eu dysgu mewn lleoliadau newydd, er enghraifft trwy greu eu celfyddyd gwydr lliw eu hunain o safle sy'n cael ei lywio gan ddysgu am enghreifftiau lleol, byd-eang a hanesyddol.
Meithrin effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr.	- Bydd y dysgwyr yn dysgu sut i feithrin a defnyddio gwybodaeth gyfoethog a chreadigol am fathau gwahanol o fynegiant ysbrydol. - Bydd y dysgwyr yn dysgu disgrifio ac egluro crefyddau a bydolygon, gan gymhwyso syniadau yn greadigol drostynt eu hunain.

Mae CGM yn y deunyddiau cymorth hyn yn cynnwys meithrin gwerthoedd, rhinweddau ac agweddau cadarnhaol sy'n cyfrannu at lesiant y dysgwyr:

- Cariad at ddysgu:** mwynhau darganfod syniadau newydd am grefydd a chred, gan gynnwys eu mynegi eu hunain yn y celfyddydau – gyda pheth llawenydd gobeithio!
- Parch at bawb:** wynebu'r heriau y mae CGM yn eu gosod o ran meithrin parch at bawb, er enghraifft trwy nodi hunaniaethau amrywiol Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol ond heb fod yn grefyddol.
- Parodrwydd i ddefnyddio tystiolaeth a mynd ar drywydd y gwirionedd:** gwerthfawrogi'n gynyddol ffyrdd y gellir deall crefydd a chred trwy bwysu a mesur enghreifftiau o hanes, astudiaeth leol, astudiaeth fyd-eang a'r byd cyfoes.
- Bod â meddwl agored:** bod yn barod i ystyried syniadau newydd, yn enwedig yn eu gwaith dychmygus a chreadigol eu hunain.
- Gwerthfawrogiad a rhyfeddod:** meithrin dirnadaeth o gwestiynau ysbrydol a ffurfiau mynegiant.

Dysgu Blaenorol	Geirfa CGM gyfoethog	Adnoddau i athrawon eu harchwilio - ni fydd arnoch angen y rhain i gyd, ond maent yn dangos ystod o bosibiliadau
Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r dysgwyr yn meddu ar y canlynol: Peth gwybodaeth flaenorol am hunaniaethau crefyddol ac anghrefyddol, a dealltwriaeth o hynny. Atgoffwch y dysgwyr am eu hastudiaethau blaenorol ym maes Cristnogaeth, ac am gelfyddyd a phensaernïaeth ysbrydol. Defnyddiwch ddulliau dysgu adalw i wirio eu gwybodaeth fel y gellir osgoi ailadrodd, ac y gellir bwrw ati'n fanwl o ran dysgu newydd.	Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion sy'n ymwneud â'r testun, gan gynnwys y canlynol: • Gwydr lliw • Pensaernïaeth a chelfyddyd grefyddol • Pensaernïaeth a chelfyddyd seciwlar • Ysbrydol • Ysbrydol ond heb fod yn grefyddol • Dychymyg • Credoau • Gwerthoedd • Cynefin • Creadigrwydd • Eglwys/Capel/Mosg/Eglwys Gadeiriol	Adnoddau ar y we • Gellir dod o hyd i'r rhan fwyaf o'r adnoddau gwe penodol y mae eu hangen yn yr uned hon ar ffurf dolenni byw yn nhestun y cynlluniau gwersi. • Mae gwefan RE Today a gwefan y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Athrawon Addysg Grefyddol (NATRE) yn fannau defnyddiol ar gyfer adnoddau ychwanegol: www.retoday.org.uk a www.natre.org.uk • Mae siop NATRE yn lle da i ganfod a phrynu adnoddau o safon i athrawon ar gyfer yr uned hon: www.shop.natre.org.uk • Mae gan NATRE fan cychwyn gwych ar y we ar gyfer y materion hyn: mae http://www.natre.org.uk/about-natre/projects/spirited-arts/introduction/ yn galluogi dysgwyr i weld a barnu nifer o weithiau celf gan bobl ifanc ar syniadau crefyddol ac ysbrydol allweddol. • Mae banc clipiau'r BBC yn ffynhonnell bwysig ar gyfer ffilmiau Addysg Grefyddol byr y gellir eu cyrchu ar-lein a'u dangos am ddim: http://www.bbc.co.uk/learningzone/clips • Mae Addysg Grefyddol BBC Bitesize ar gyfer CA2 hefyd yn fan cychwyn da. • Y porth gorau ar gyfer gwefannau Addysg Grefyddol yw: www.reonline.org.uk • Mae gan TrueTube fideos defnyddiol ar gyfer Addysg Grefyddol yn CA2: https://www.truetube.co.uk/list?content%20types=films&keystags=key%20stage%201&page=1& • Gallwch ddod o hyd i destunau cysegredig chwiliadwy o lawer o grefyddau, a'u defnyddio, yma: www.ishwar.com • Gwybodaeth a syniadau dysgu o ansawdd da am Gristnogaeth: http://request.org.uk/ • Mae Birmingham Faith Visits yn brosiect gwych: 18 o ffilmiau byr o chwe phrif adeilad crefyddol yn Birmingham a ystyrir yn safleoedd ar gyfer y celfyddydau, a phob ffilm yn addas ar gyfer plant mewn ysgolion cynradd, ynghyd â llawer o adnoddau cymorth: https://birmingham-faith-visits.theartssociety.org/ • I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/places-of-worship-voices-from-religion-and-worldviews/

Cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr

(Mae CGM yn cyfrannu at y cyfrifoldeb ysgol gyfan hwn)

- **Ysbrydol:** Trafod cwestiynau allweddol am ystyr sydd wrth wraidd crefyddau a chredoau, gan gynnwys syniadau am fynegi ffydd a gwerthoedd trwy'r celfyddydau
- **Moesol:** Ystyried gwerthoedd a moeseg mewn perthynas â'r cynllun dysgu hwn
- **Cymdeithasol:** Mynegi eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill am effeithiau crefyddau, gwerthoedd a chredoau a welir yn y celfyddydau a phensaernïaeth
- **Diwylliannol:** Dod i gysylltiad â phobl, llenyddiaeth, celfyddydau ac adnoddau creadigol o grefyddau a bydolygon gwahanol

Sut y mae'r deunyddiau cymorth hyn yn helpu i ddatblygu ymgysylltiad y dysgwyr â'r themâu trawsbynciol?

<https://hwb.gov.wales/cwricwlm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlm/#cross-cutting-themes>

- **Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:** yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang
- **Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith:** bydd y dysgwyr yn cael gwybod am y rheiny sy'n gweithio ym maes celf a chrefft mewn gwahanol rannau o Gymru
- **Addysg hawliau dynol ac amrywiaeth:** mae'r gwaith hwn yn arddangos amrywiaeth wrth ei galon

DISGWYLIADAU: O'r deunyddiau cymorth hyn	
Bydd bron pob un o'r dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	- Cofio a disgrifio enghreifftiau amrywiol o'r modd y mae gwydr lliw yn mynegi credoau a gwerthoedd ysbrydol. - Defnyddio geirfa allweddol am ysbrydolrwydd yn gywir i fyfyrar grefydd, ysbrydolrwydd a llesiant personol trwy wneud cynnyrch creadigol.
Bydd mwyafrif y dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	- Creu gwaith celf am ysbrydolrwydd y gallant fod yn falch ohono, ac ysgrifennu sylwadau meddylgar amdano. - Mynegi syniadau rhesymegol am y modd y mae Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol - ond heb fod yn grefyddol - yn ymateb yn greadigol i gwestiynau mawr. - Mynegi eu dealltwriaeth o gwestiynau crefyddol, ysbrydol a diwylliannol o'u cynefin eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth gyfoethog am ddiwylliant crefyddol, gan gynnwys gwydr lliw/celf, a hynny o gymunedau ysbrydol gwahanol.
Bydd llawer o'r dysgwyr yn gallu gwneud y canlynol:	- Defnyddio ystod o syniadau o safbwyntiau gwahanol am werthoedd ac ysbrydolrwydd i roi ymatebion creadigol a rhesymegol sy'n llawn dychymyg i'r hyn y maent yn ei astudio. - Trafod y cwestiwn: sut y mae ein sefydliadau cyhoeddus (ysbyty, ysgol, llyfrgell, amlogfa) yn mynegi gwerthoedd ac ysbrydolrwydd mewn ffyrdd sy'n gweddu i gymdeithas luosol? - Ystyried y modd y gall ein cymunedau a'n diwylliant ddathlu gwerthoedd, gan gynnwys iechyd, ffydd, bywyd, cariad, cymuned, gwaith tîm, ymdrech, ac enghreifftiau eraill.
Asesu a chyflawniad Syniadau posibl ar gyfer casglu tystiolaeth o gynnydd a chyrhaeddiad - Gellir asesu cynnydd a chyrhaeddiad y dysgwyr trwy dasg derfynol yr uned, lle mae'r dysgwyr yn creu celf drostynt eu hunain. - Paratowch y dysgwyr ar gyfer y dasg hon trwy'r gweithgareddau addysgu a dysgu cynharach. Anogwch nhw ar bob cam i feddwl am y modd y bydd eu darn terfynol eu hunain yn cael ei siapio, ei greu a'i esbonio. - Sicrhewch fod y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddefnyddio geirfa newydd, gan gynnwys gweledigaeth/gwerthoedd/ysbrydolrwydd/ysbrydol ond heb fod yn grefyddol/diwylliant/y celfyddydau mynegiannol/hunaniaethau crefyddol ac anghrefyddol. - Anogwch y dysgwyr i fod yn wreiddiol a chreadigol wrth gyflawni'r dasg trwy ddarparu modelu ac enghreifftiau o ansawdd da iddynt eu defnyddio yn eu prosesau creadigol eu hunain. Rhwng amser ac adnoddau i'r dychymyg weithio. Anogwch ysgrifennu o safon am brosesau ac ystyron y gwaith hwn.	

Sut y mae celfyddyd gwydr lliw yn mynegi storïau Beiblaidd a chredoau Cristnogol? Is-lensys: Hunaniaeth a pherthyn, gwerthoedd a moeseg, taith bywyd.			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Y gwerthoedd sy'n dylanwadu ar bobl sy'n ysbrydol ond heb fod yn grefyddol ac ar Gristnogion, a'r rhesymau pam y maent yn bwysig. Syniadau allweddol: Ysbrydolrwydd, diwylliant, y celfyddydau, mynegiant, hunaniaeth grefyddol ac anghrefyddol, ysbrydol, dychymyg, creadigrwydd Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch yr adnoddau y maent yn eu defnyddio a'r ffyrdd y maent yn rhoi'r enghraifft hon o gynllunio ar waith, yn unol ag	Beth yr ydym yn ei wybod am wydr lliw Cymreig? - Cyflwynwch y testun i'r dysgwyr. Dywedwch wrthynt fod yna lawer i'w ddysgu am hanes ysbrydol a chrefyddol Cymru o ffenestri gwydr lliw, sef ffurf gelfyddydol sydd wedi bod yn boblogaidd yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd, ac y byddant yn cael cyfle o fewn cynllun yr uned hon i greu ffenestr wydr lliw, neu ffurf gelfyddydol arall, gan ddefnyddio eu syniadau a'u credoau ysbrydol eu hunain. Ymweld ag enghreifftiau lleol - Os yw'n bosibl, ewch i ymweld â dau neu dri chapel ac eglwys leol, i edrych ar y ffenestri paentiedig a'r gwydr lliw a welwch yno, a thynnu lluniau ohonynt a'u trafod. Gofynnwch i Gristion lleol siarad am yr awyrgylch ysbrydol y gall hyn ei greu, a'r straeon o'r Beibl sydd, o bosibl, i'w gweld arnynt. Anogwch y dysgwyr i werthfawrogi ansawdd, harddwch a natur gynhenid y gelfyddyd hon - rhaid bod yna ddegau o filoedd o enghreifftiau yng Nghymru. Sylwer y gall eglwysi Anglicanaidd a Chatholig fod yn fwy addurnedig, ond mae yna lawer o gapeli anghydfurfiol yn defnyddio gwydr lliw mewn ffyrdd a gynlluniwyd i greu gofod o heddwch, meddylgarwch, cymuned ac ysbrydolrwydd. Webquest - Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am wydr lliw - a ydynt yn gwybod am unrhyw enghreifftiau? Sut y gallent ddod o hyd i enghreifftiau? Beth a allai wneud i ffenestr wydr lliw fod yn arbennig o ysbrydoledig? - Addysgwch y dosbarth fod y gwaith yn dechrau gyda Christnogaeth, sef y brif grefydd yng Nghymru yn ystod y canrifoedd diwethaf, ond yn ddiweddarach byddant yn meddwl am bobl sy'n ysbrydol - ond heb fod yn grefyddol. - Cynllunwch weithgaredd sy'n rhoi mynediad i'r we i barau o ddysgwyr, ac yn eu hanfon ar daith o amgylch safleoedd lle y gallant ddod o hyd i enghreifftiau o wydr lliw sy'n ddiddorol yn eu barn nhw, ac y gallant dorri, copïo a gludo'r enghreifftiau hynny. Gosodwch ddogfen/cyflwyniad PowerPoint/Prezi neu raglen debyg ar eu cyfer y gallant ludo delweddau o bum enghraifft o'u hymchwyl sy'n ddiddorol yn eu barn nhw, ynghyd â nodiadau am bob enghraifft y maent wedi'i dewis sy'n nodi o le y daeth, pryd y cafodd ei chreu, beth sy'n ei gwneud yn arbennig, a pha stori Feiblaidd, neu gred neu syniad Cristnogol, y mae'n ei darlunio. - Heriwch y dosbarth i feddwl am hyn drostynt eu hunain: nid mater o ddod o hyd i unrhyw hen bum darlun yn unig mohono!	- Mynegi syniadau rhesymegol am y modd y mae Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol - ond heb fod yn grefyddol - yn ymateb i gwestiynau mawr am Dduw, y natur ddynol ac ystyron bywyd. - Mynegi eu dealltwriaeth o gwestiynau crefyddol, ysbrydol a diwyllianol o'u cynefin eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth gyfoethog am ddiwylliant crefyddol, gan gynnwys gwydr lliw/celf, a hynny o gymunedau ysbrydol gwahanol. - Defnyddio ystod o syniadau o safbwyntiau gwahanol am werthoedd ac ysbrydolrwydd i roi adroddiadau creadigol a rhesymegol sy'n llawn dychymyg am eu syniadau a'u hymatebion eu hunain i'r hyn y maent yn ei astudio. - Defnyddio geirfa allweddol am	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Gan ganolbwyntio ar CGM, mae'r deunyddiau hyn hefyd yn cyfeirio at Astudiaethau Cymdeithasol a Hanes, gan adlewyrchu cymhlethdod ein bywydau cymunedol. Adnoddau allweddol: Mae <i>Picturing Christianity</i> a <i>Picturing Jesus</i> o wefan RE Today yn adnoddau defnyddiol. Mae gwefannau y cyfeirir atynt yn y nodiadau addysgu a dysgu yn darparu gwybodaeth werthfawr am y thema.

anghenion dysgu eu dysgwyr.	- Dyma rai mannau cychwyn ar gyfer y gweithgaredd <i>webquest</i>. Gallwch ddod o hyd i ddwsinau yn rhagor. ✓ Dyma gronfa ddata prosiect Gwydr Lliw yng Nghymru Prifysgol Cymru - mae'r ddolen hon yn arwain at enghreifftiau o storïau Beiblaidd mewn gwydr lliw. Mae yna dros 5,000 o enghreifftiau i edrych arnynt a dysgu oddi wrthynt. http://stainedglass.llgc.org.uk/main.php?func=browse ✓ Dyma wefan Eglwys y Santes Fair, Abertawe, sydd â gwydr lliw diddorol iawn: http://www.swanseastmary.co.uk/photographscon.htm ✓ Ffenestri gwydr lliw yn portreadu Dewi Sant yn Eglwys Gadeiriol Caerdydd: https://stainedglasswales.wordpress.com/2020/03/26/st-david-panels-at-cardiff-cathedral/ ✓ Ffenestr goffa yn portreadu'r Cread yn Eglwys Sant Cyngar, Llangefni: https://www.northwaleschronicle.co.uk/news/19638841.st-cyngars-church-gifted-memorial-beloved-parishioner/ - Heriwch y dosbarth i ddod o hyd i'r storïau yn y Beibl neu gredoau Cristnogol sy'n gysylltiedig â'r enghreifftiau hyn o gelfyddyd gwydr lliw, a mynd ati i'w darllen a meddwl amdanynt. Edrychwch ar y berthynas rhwng y darnau o'r Beibl a'r gweithiau celf, a'u trafod. Beth yr oedd yr artistiaid wedi ei gymryd o'r Beibl, ac wedi ychwanegu ato? - A allant ddod o hyd i enghreifftiau o wydr lliw sy'n gysylltiedig â'r canlynol: ✓ Storïau'r Nadolig am Iesu ✓ Storïau Wythnos y Pasg am Iesu - ei farwolaeth a'r atgyfodiad ✓ Cymeriadau enwog yn y Beibl neu arwyr Cristnogol ✓ Syniadau am Dduw (e.e. y Drindod, yr Ysbryd Glân) ✓ Gwerthoedd - megis cariad, heddwch, ffydd, nerth, treftadaeth? - Gofynnwch i'r dysgwyr gyflwyno'r enghreifftiau a ddewiswyd ganddynt i'w gilydd yn yr ystafell ddosbarth. - Ystyriwch yn ofalus y drefn y mae'r dysgwyr am restru'r datganiadau hyn ynddi: <table><tr><td>Mae gwydr lliw yng Nghymru yn bwysig oherwydd bod ganddo hanes hir o fod yn ffurf gelfyddydol.</td><td>Mae'r diwylliant Cymreig yn defnyddio gwydr lliw i fynegi syniadau ysbrydol.</td><td>Y peth gorau am wydr lliw Cymreig yw ei amrywiaeth.</td></tr><tr><td>Mae'r ffyrdd y mae golau'n ffrydio trwy wydr yn rhoi pŵer arbennig, ac effaith ysbrydol, i'r ffurf gelfyddydol hon.</td><td>Weithiau mae gwydr lliw Cymreig cyfoes yn mynegi gwerthoedd ysbrydol heb fod yn grefyddol.</td><td>Mae gweithiau crefyddol celfyddyd gwydr lliw yn llai perthnasol heddiw.</td></tr></table>	Mae gwydr lliw yng Nghymru yn bwysig oherwydd bod ganddo hanes hir o fod yn ffurf gelfyddydol.	Mae'r diwylliant Cymreig yn defnyddio gwydr lliw i fynegi syniadau ysbrydol.	Y peth gorau am wydr lliw Cymreig yw ei amrywiaeth.	Mae'r ffyrdd y mae golau'n ffrydio trwy wydr yn rhoi pŵer arbennig, ac effaith ysbrydol, i'r ffurf gelfyddydol hon.	Weithiau mae gwydr lliw Cymreig cyfoes yn mynegi gwerthoedd ysbrydol heb fod yn grefyddol.	Mae gweithiau crefyddol celfyddyd gwydr lliw yn llai perthnasol heddiw.	ysbrydolrwydd yn gywir i fyfrio ar grefydd, ysbrydolrwydd a llesiant personol.	
Mae gwydr lliw yng Nghymru yn bwysig oherwydd bod ganddo hanes hir o fod yn ffurf gelfyddydol.	Mae'r diwylliant Cymreig yn defnyddio gwydr lliw i fynegi syniadau ysbrydol.	Y peth gorau am wydr lliw Cymreig yw ei amrywiaeth.							
Mae'r ffyrdd y mae golau'n ffrydio trwy wydr yn rhoi pŵer arbennig, ac effaith ysbrydol, i'r ffurf gelfyddydol hon.	Weithiau mae gwydr lliw Cymreig cyfoes yn mynegi gwerthoedd ysbrydol heb fod yn grefyddol.	Mae gweithiau crefyddol celfyddyd gwydr lliw yn llai perthnasol heddiw.							

	Mae'n beth da bod gwydr lliw y dyddiau hyn yn creu lleoedd tawel a heddychlon mewn ysbytai yn ogystal ag eglwysi. Gall celfyddyd gwydr lliw yng Nghymru heddiw fynegi ein gwerthoedd. Gwneir adeiladau Cristnogol yn llawer mwy prydfarth ac atmosfferig trwy ddefnyddio gwydr lliw.		
	- Ysgrifennu estynedig: gellir herio'r dysgwyr i ysgrifennu am yr enghreifftiau y maent wedi'u harchwilio. Gallent ddefnyddio'r naw syniad uchod, neu eu hymateb iddynt. Gallent ysgrifennu tri pharagraff: - Gall gwydr lliw Cymreig ddysgu llawer i ni, er enghraifft ... - Y prif bethau rydw i wedi'u dysgu yn ystod yr astudiaeth hon yw ... - Gall celfyddyd gwydr lliw fod yn ysbrydol, er enghraifft ...		

Sut y mae celfyddyd gwydr lliw yn mynegi gwerthoedd a syniadau ysbrydol? Enghreifftiau o Gymru

Is-lensys: Y byd naturiol a phethau byw, hunaniaeth a pherthyn, gwerthoedd a moeseg.

Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Y gwerthoedd sy'n dylanwadu ar bobl sy'n ysbrydol ond heb fod yn grefyddol ac ar Gristnogion, a'r rhesymau pam y maent yn bwysig. Syniadau allweddol: Ysbrydolrwydd, diwylliant, y celfyddydau, mynegiant, hunaniaeth grefyddol ac anghrefyddol,	Ysbrydol ond heb fod yn grefyddol - beth y mae hynny'n ei olygu? - Addysgwch y dysgwyr nad yw llawer o bobl yng Nghymru a'r DU heddiw yn mynd i eglwysi, mosgiau neu gapeli, ond eu bod yn eu hystyried eu hunain yn bobl ysbrydol - y rheiny y mae pethau'r Ysbryd yn bwysig iddynt, megis rhyfeddod, syfrdandod, syniadau dwys, angerdd, y celfyddydau neu ein gwerthoedd. Mae llawer o'r bobl hyn yn credu yn Nuw, a llawer ohonynt nad ydynt yn credu. - Gofynnwch i'r dysgwyr wneud gweithgaredd <i>webquest</i> arall, gan edrych y tro hwn ar y defnydd a wneir o wydr lliw nad yw'n benodol yn Gristnogol. Unwaith eto, gofynnwch iddynt mewn paruau ddarganfod pum enghraifft sy'n ddiddorol yn eu barn nhw, a llunio dogfen amdanynt. Dyma rai manau cychwyn. - Gellir astudio amrywiaeth enfawr o artistiaid gwydr lliw cyfoes sy'n gweithio yng Nghymru, gan ddechrau yma: https://stainedglassnews.co.uk/studiosWALES.htm - Mae Great Oak Glass yn stiwdio lle gwelir pob math o ddathliadau o natur a bywyd anifeiliaid mewn gwydr lliw. Cymerwch olwg ar yr oriel. https://www.greatoakglass.co.uk/gallery/?page=1 - Mae JM Glass Design, o Abertawe, yn creu ac yn adfer gwydr lliw ar gyfer capeli ac eglwysi, a hefyd yn gwneud llawer o waith 'ysbrydol	- Mynegi syniadau rhesymegol am y modd y mae Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol - ond heb fod yn grefyddol - yn ymateb i gwestiynau mawr am Dduw, y natur ddynol ac ystyron bywyd. - Mynegi eu dealltwriaeth o gwestiynau crefyddol, ysbrydol a diwyllianol o'u cynefin eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth gyfoethog am ddiwylliant crefyddol, gan gynnwys gwydr lliw/celf, a hynny o gymunedau ysbrydol gwahanol. - Defnyddio ystod o syniadau o safbwyntiau gwahanol am werthoedd	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Gan ganolbwyntio ar CGM, mae'r deunyddiau hyn hefyd yn cyfeirio at Astudiaethau Cymdeithasol a Hanes, gan adlewyrchu cymhlethdod ein bywydau cymunedol. Adnoddau allweddol: <i>Mae Picturing Christianity a Picturing Jesus</i> o wefan RE Today yn adnoddau defnyddiol. Mae gwefannau y cyfeirir atynt yn y nodiadau addysgu a dysgu yn

ysbrydol, dychymyg, creadigrwydd.	ond heb fod yn grefyddol'. Dechreuwch eich gwaith ymchwil yma: https://www.jm-glass.co.uk/portfolio.html ✓ Mae Catrin Davies yn gweithio yng Nghaerfyrddin ac yn creu ystod eang o ddarnau gwydr lliw ysbrydol mewn arddulliau modern iawn. Mae ei gwaith weithiau ar gyfer eglwysi, ond hefyd ar gyfer ysbytai a mannau cyhoeddus eraill. Edrychwch ar y wefan i weld yr hyn yr ydych yn ei hoffi orau: https://catrindavies.glass/ • Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis enghreifftiau o wydr lliw nad yw'n grefyddol mewn gwirionedd - e.e. wedi'i greu ar gyfer eglwys, ond sy'n ysbrydol, ac sy'n ymwneud â'r ysbryd dynol neu â gwerthoedd a moeseg. • Gofynnwch iddynt rannu'r enghreifftiau y maent yn dod o hyd iddynt, ac yna ystyried y canlynol mewn paru: pe bai rhywun yn gofyn i chi wneud ffenestr wydr lliw ar gyfer y lleoliadau canlynol, beth y byddech yn ei greu? Rhannwch y brasluniau a'u trafod â'ch gilydd. ✓ Ffenestr ar gyfer llyfrgell sy'n dathlu cariad at ddysgu ✓ Ffenestr ar gyfer ysbyty sy'n dathlu iachâd a heddwch ✓ Ffenestr ar gyfer stadiwm chwaraeon sy'n dathlu gwaith tîm ac ymrwymiad ✓ Ffenestr ar gyfer llys barn sy'n dathlu cyfiawnder ✓ Ffenestr ar gyfer amlogfa sy'n dathlu bywyd ac atgofion	ac ysbrydolrwydd i roi adroddiadau creadigol a rhesymegol sy'n llawn dychymyg am eu syniadau a'u hymatebion eu hunain i'r hyn y maent yn ei astudio.	darparu gwybodaeth werthfawr am y thema.
-----------------------------------	--	--	--


Beth yw rhai o'ch hoff enghreifftiau o gelfyddyd gwydr lliw a mynegiant ysbrydol o bedwar ban byd?

Is-lensys: Hunaniaeth a pherthyn, gwerthoedd a moeseg.

Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd: Y gwerthoedd sy'n dylanwadu ar bobl sy'n ysbrydol ond heb fod yn grefyddol ac ar Gristnogion, a'r rhesymau pam y maent yn bwysig. Syniadau allweddol:	Dibenion y wers: defnyddio traddodiadau mwyaf gwerthfawr gwydr lliw o bob rhan o'r byd i gyfoethogi dysg y dysgwyr. Cyd-destun byd-eang. • Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am yr holl enghreifftiau o Gymru y maent wedi'u hastudio. Beth y mae unrhyw un ohonynt yn ei wybod am gelfyddyd gwydr lliw y tu hwnt i Gymru? Dywedwch wrthynt y byddant 'nawr yn dysgu am dair neu bedair enghraifft o wydr lliw o bedwar ban byd. Gofynnwch a allant ddyfalu rhai o'r pethau y gallent fod yn eu darganfod - a allant wneud awgrymiadau ar nodiadau gludiog?	• Mynegi syniadau rhesymegol am y modd y mae Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol - ond heb fod yn grefyddol - yn ymateb i gwestiynau mawr am Dduw, y natur ddynol ac ystyron bywyd. • Mynegi eu dealltwriaeth o gwestiynau crefyddol, ysbrydol a diwylliannol o'u cynefin eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth gyfoethog	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Gan ganolbwyntio ar CGM, mae'r deunyddiau hyn hefyd yn cyfeirio at Astudiaethau Cymdeithasol a Hanes, gan adlewyrchu cymhlethdod ein bywydau cymunedol. Adnoddau allweddol:

Ysbrydolrwydd, diwylliant, y celfyddydau, mynegiant, hunaniaeth grefyddol ac anghrefyddol, ysbrydol, dychymyg, creadigrwydd. Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch yr adnoddau y maent yn eu defnyddio a'r ffyrdd y maent yn rhoi'r enghraifft hon o gynllunio ar waith, yn unol ag anghenion dysgu eu dysgwyr.	• Hanes. Addysgwch y dosbarth am enghraifft hanesyddol o gelfyddyd gwydr lliw anhygoel. Eglwys Gadeiriol Chartres yn Ffrainc, Eglwys San Pedr yn Rhufain neu yng Nghwlen. • Mwslimaidd. Edrychwch ar enghreifftiau o wydr lliw Islamaidd. Daw un o'r rhai mwyaf trawiadol o Iran, sef Neuadd Weddi'r Gaeaf ym mosg Nasir al-Mulk. Mae yna gannoedd o luniau ar Flickr. Addysgwch y dosbarth am y dyfeisiadau a'r pethau arloesol a greodd Mwslimiaid hynafol mewn perthynas â gwydr yn ystod canrifoedd cyntaf eu ffydd. • Artistiaid gwydr lliw enwog. Cynlluniwch weithgaredd sy'n galluogi'r dysgwyr i archwilio artistiaid gwydr lliw enwog. Ni fu i hunaniaeth Iddewig Marc Chagall ei rwystro rhag creu gwydr ar gyfer eglwysi, ond mae peth o'i waith gorau yn ymddangos yn nhraddodiad ei ffydd ei hun: mae'r wefan isod yn fan cychwyn gwyd: https://www.itravelwithart.com/marc-chagall-stained-glass-windows-around-the-world/ Aeth Edward Burne-Jones â'r gelfyddyd i gyfeiriadau newydd hefyd, a defnyddiodd lliwiau mewn ffyrdd cyfoethog, creadigol a dyfeisgar. Rhowch gynnig ar y wefan isod: https://www.thehistoryofart.org/edward-burne-jones/stained-glass-windows/ • Engheifftiau cyfoes: Eglwys Gadeiriol Sagrada Familia, Barcelona – gan Gaudi, Eglwys Gadeiriol Cofentri, Eglwys Gadeiriol Gatholig Lerpwl, gwaith John Piper, Mark Angus. Gall y rhan hon o'r dysgu fod yn amrywiol iawn. Dyma fan cychwyn rhagorol: https://www.architecturaldigest.com/gallery/stained-glass-windows • Un ffordd o gyflwyno'r wers hon yw trwy argraffu lluniau trawiadol a'u harddangos ar fyrdau o amgylch yr ystafell ddosbarth. Defnyddiwch y dull 'trafodaeth dawl' i roi sylwadau arnynt: cyfoes neu hynafol? Sanctaidd neu seciwlar? Yr un gorau oll? Defnyddio'r golau yn dda? Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu nodiadau oriel am yr enghreifftiau, fel petai ar gyfer catalog celf, a dewis eu ffefrynau. Pa rai yw'r rhai mwyaf 'ysbrydol' neu fwyaf 'crefyddol', a pham?	am ddiwylliant crefyddol, gan gynnwys gwydr lliw/celf, a hynny o gymunedau ysbrydol gwahanol. • Defnyddio ystod o syniadau o safbwyntiau gwahanol am werthoedd ac ysbrydolrwydd i roi adroddiadau creadigol a rhesymegol sy'n llawn dychymyg am eu syniadau a'u hymatebion eu hunain i'r hyn y maent yn ei astudio. • Defnyddio geirfa allweddol am ysbrydolrwydd yn gywir i fyfyrar grefydd, ysbrydolrwydd a llesiant personol.	<i>Mae Picturing Christianity a Picturing Jesus o wefan RE Today yn adnoddau defnyddiol. Mae gwefannau y cyfeirir atynt yn y nodiadau addysgu a dysgu yn darparu gwybodaeth werthfawr am y thema.</i>
---	---	--	--

Pa fath o waith celf y gallaf ei greu i fynegi fy syniadau ysbrydol ac athronyddol? Is-lensys: Y byd naturiol a phethau byw, hunaniaeth a pherthyn, awdurdod a dylanwad, gwerthoedd a moeseg. Taith bywyd.			
Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu	Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau
Gwybodaeth graidd:	Cynlluniwch, dyluniwch a chrëwch eich gwaith celf eich hun yn arddull ffenestr wydr lliw.	• Defnyddio geirfa allweddol am ysbrydolrwydd yn gywir i	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Gan ganolbwyntio ar CGM,

Y gwerthoedd sy'n dylanwadu ar bobl sy'n ysbrydol ond heb fod yn grefyddol ac ar Gristnogion, a'r rhesymau pam y maent yn bwysig. Syniadau allweddol: Ysbrydolrwydd, diwylliant, y celfyddydau, mynegiant*, hunaniaeth grefyddol ac anghrefyddol, ysbrydol, dychymyg, creadigrwydd. Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch yr adnoddau y maent yn eu defnyddio a'r ffyrdd y maent yn rhoi'r enghraifft hon o gynllunio ar waith, yn unol ag anghenion dysgu eu dysgwyr.	• Cyflwynwch y dysgwyr i'r adnoddau celf y gallwch eu darparu ar gyfer y prosiect hwn. Gall gymryd tair gwers. Byddwch yn cael canlyniadau gwell os byddwch yn rhannu'r gwaith â'r adran Gelf a'r MDPH hwnnw. • Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl p'un a fyddant yn dewis thema grefyddol, syniad ysbrydol, delwedd o'r byd naturiol, gwerth sy'n bwysig iddynt, neu gwestiwn mawr yn ffocws ar gyfer eu gwaith. Gwnewch hyn trwy gynnal trafodaeth. • Dangoswch enghraifft syml iddynt, fel yr un ganlynol: amlinelliad blodeuog. Yn ei hanfod, mae gwydr lliw yn dechneg syml (gall peintio ar y gwydr ychwanegu manylder a chymhlethdod). • Addysgwch y dosbarth sut i ddefnyddio cerdyn lliw tywyll, e.e. cerdyn du, gyda delwedd neu siâp syml, e.e. pysgodyn, croes, blodyn, cannwyll, bwlb golau, mellten. Trwy ludo papur sidan o liwiau gwahanol ar gefn yr amlinelliad wedi'i dorri, gallant greu llun 'rhannu golau' syml ac effeithiol iawn, i'w llynu wrth ffenestr yn yr ystafell ddosbarth neu yn yr ysgol. Mae'n bosibl y gellir creu effeithiau tebyg sy'n fwy manwl trwy ddefnyddio taflenni asetad a phennau lliw. Anogwch wreiddioldeb a chreadigrwydd. • Anogwch y dysgwyr i nodi enghreifftiau o fywyd a phrofiad Cymreig, megis y gwydr lliw mewn capeli ac eglwysi lleol, neu'r enghreifftiau a astudiwyd mewn gwersi cynharach. • Trefnwch weithgaredd ysgrifennu sy'n galluogi'r dysgwyr i symud ymlaen i chwilio am ystyr a diben mewn perthynas â gwerthoedd a chredoau. Trafodwch y modd y mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach bywyd er mwyn deall yr awydd dynol i'n mynegi ein hunain mewn ffordd artistig a dychmygus. 	fyfrio ar grefydd, ysbrydolrwydd a llesiant personol trwy wneud cynnyrch creadigol. • Creu gwaith celf am ysbrydolrwydd y gallant fod yn falch ohono ac ysgrifennu sylwadau meddylgar amdano. • Mynegi syniadau rhesymegol am y modd y mae Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol - ond heb fod yn grefyddol - yn ymateb yn creadigol i gwestiynau mawr. • Mynegi eu dealltwriaeth o gwestiynau crefyddol, ysbrydol a diwylliannol o'u cynefin eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth gyfoethog am ddiwylliant crefyddol, gan gynnwys gwydr lliw/celf, a hynny o gymunedau ysbrydol gwahanol. • Defnyddio ystod o syniadau o safbwyntiau gwahanol am werthoedd ac ysbrydolrwydd i roi ymatebion creadigol a rhesymegol sy'n llawn dychymyg i'r hyn y maent yn ei astudio.	mae'r deunyddiau hyn hefyd yn cyfeirio at Astudiaethau Cymdeithasol a Hanes, gan adlewyrchu cymhlethdod ein bywydau cymunedol. Gall defnyddio papur sidan, asetad a phennau lliw ar amlinell o 'rynglinellau' ar gerdyn du wneud i hyn fod yn effeithiol mewn ffyrdd syml. Cynlluniwch arddangosfa ar ffenestr fwyaf eich ysgol: gwnewch rywbeth trawiadol ar gyfer CGM. Adnoddau allweddol: Mae <i>Picturing Christianity</i> a <i>Picturing Jesus</i> o wefan RE Today yn adnoddau defnyddiol. Mae gwefannau y cyfeirir atynt yn y nodiadau addysgu a dysgu yn darparu gwybodaeth werthfawr am y thema.
--	---	---	---

Beth yr ydym wedi'i ddysgu am fynegiant ysbrydol trwy ddefnyddio gwydr lliw?

Is-lensys: Hunaniaeth a pherthyn, gwerthoedd a moeseg.

Cymwysiadau CGM:	Awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau addysgu a dysgu		Bydd y dysgwyr yn cael eu galluogi i wneud y canlynol:	Cysylltiadau a syniadau						
Gwybodaeth graidd: Y gwerthoedd sy'n dylanwadu ar bobl sy'n ysbrydol ond heb fod yn grefyddol ac ar Gristnogion, a'r rhesymau pam y maent yn bwysig. Syniadau allweddol: Ysbrydolrwydd, diwylliant, y celfyddydau, mynegiant, hunaniaeth grefyddol ac anghrefyddol, ysbrydol, ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, dychymyg, gwerthoedd, cynefin, creadigrwydd. Sybsidiaredd: Gall ysgolion fod yn hyblyg ynghylch yr adnoddau y maent yn eu defnyddio a'r ffyrdd y maent yn rhoi'r enghraifft hon	Mae'r syniad hwn am wers olaf yn rhoi cyfle i'r dysgwyr edrych yn ôl ar eu gwaith ac ysgrifennu'n dda am eu dysgu. Gallant ddewis deg o'r awgrymiadau i ysgrifennu eu 'traethawd'. Mae'r tair adran yn cynnwys awgrymiadau graddedig, a gellir gwahodd rhai o'r dysgwyr sy'n gweithio i'r safonau disgwylidiedig neu'n is i ddefnyddio deg awgrym o adrannau A a B, neu ddeg awgrym o adrannau B ac C os ydynt yn anelu at gyflawniad uwch. <table><tr><td>Adran A: ar gyfer pob dysgwr</td><td> 1. ... yw fy hoff enghraifft o wydr lliw 2. Roeddwn i'n ei hoffi orau am fod ... 3. Mae'r gwydr lliw hwn yn dangos gwerth ... 4. Mae'r gwydr lliw hwn yn dangos y gred Gristnogol yn lesu trwy ... 5. Roedd y ffenestr lliw a greais i yn ymwneud â ... 6. Ceisiais fynegi fy syniadau trwy ... 7. Mae'r hyn sy'n dda am fy ngwaith, yn fy marn i, fel a ganlyn ... 8. Gwnaeth rhai o'r dysgwyr eraill waith gwych, er enghraifft ... </td></tr><tr><td>Adran B: i herio ymhellach</td><td> 1. Mae rhai pobl yn Gristnogion. Maent yn defnyddio gwydr lliw ar gyfer... 2. Mae rhai pobl yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, ac efallai y byddant yn defnyddio gwydr lliw ar gyfer ... 3. Mae gwydr lliw yn brydferth am fod ... 4. Mae gwydr lliw yn creu awyrgylch ysbrydol, yn fy marn i, er enghraifft ... 5. Mae gan gelfyddyd gwydr lliw ddyfodol yng Nghymru, yn fy marn i, am fod ... 6. Mae fy hoff enghreifftiau byd-eang o wydr lliw yn cynnwys ... 7. Mae gwydr lliw yn bwysig ledled y byd am fod ... 8. Yr artist gwydr lliw y deuthum i wybod amdano ac yr wyf yn ei edmygu fwyaf yw ... oherwydd ... </td></tr><tr><td>Adran C: i ddarparu rhagor o ddyfnder</td><td> 1. Yn y gwaith hwn, roedd fy nghynefin fy hun yn cysylltu â'r hyn yr oeddwn wedi'i ddysgu, er enghraifft... 2. Dangosodd hyn rywbeth i mi am fy ysbrydolrwydd fy hun, sef ... 3. Dysgais am y modd y gellir cysylltu celf â chredoau crefyddol, er enghraifft ... 4. Dysgais am fod yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, ac roeddwn yn hoffi darganfod bod ... </td></tr></table>		Adran A: ar gyfer pob dysgwr	1. ... yw fy hoff enghraifft o wydr lliw 2. Roeddwn i'n ei hoffi orau am fod ... 3. Mae'r gwydr lliw hwn yn dangos gwerth ... 4. Mae'r gwydr lliw hwn yn dangos y gred Gristnogol yn lesu trwy ... 5. Roedd y ffenestr lliw a greais i yn ymwneud â ... 6. Ceisiais fynegi fy syniadau trwy ... 7. Mae'r hyn sy'n dda am fy ngwaith, yn fy marn i, fel a ganlyn ... 8. Gwnaeth rhai o'r dysgwyr eraill waith gwych, er enghraifft ...	Adran B: i herio ymhellach	1. Mae rhai pobl yn Gristnogion. Maent yn defnyddio gwydr lliw ar gyfer... 2. Mae rhai pobl yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, ac efallai y byddant yn defnyddio gwydr lliw ar gyfer ... 3. Mae gwydr lliw yn brydferth am fod ... 4. Mae gwydr lliw yn creu awyrgylch ysbrydol, yn fy marn i, er enghraifft ... 5. Mae gan gelfyddyd gwydr lliw ddyfodol yng Nghymru, yn fy marn i, am fod ... 6. Mae fy hoff enghreifftiau byd-eang o wydr lliw yn cynnwys ... 7. Mae gwydr lliw yn bwysig ledled y byd am fod ... 8. Yr artist gwydr lliw y deuthum i wybod amdano ac yr wyf yn ei edmygu fwyaf yw ... oherwydd ...	Adran C: i ddarparu rhagor o ddyfnder	1. Yn y gwaith hwn, roedd fy nghynefin fy hun yn cysylltu â'r hyn yr oeddwn wedi'i ddysgu, er enghraifft... 2. Dangosodd hyn rywbeth i mi am fy ysbrydolrwydd fy hun, sef ... 3. Dysgais am y modd y gellir cysylltu celf â chredoau crefyddol, er enghraifft ... 4. Dysgais am fod yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, ac roeddwn yn hoffi darganfod bod ...	• Mynegi syniadau rhesymegol am y modd y mae Cristnogion a phobl sy'n ysbrydol – ond heb fod yn grefyddol – yn ymateb i gwestiynau mawr am Dduw, y natur ddynol ac ystyron bywyd, a hynny trwy gelfyddyd gwydr lliw. • Mynegi eu dealltwriaeth o gwestiynau crefyddol, ysbrydol a diwylliannol o'u cynefin eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth gyfoethog am ddiwylliant crefyddol, gan gynnwys gwydr lliw/celf, a hynny o gymunedau ysbrydol gwahanol. • Defnyddio ystod o syniadau o safbwyntiau gwahanol am werthoedd ac ysbrydolrwydd i roi adroddiadau creadigol a rhesymegol sy'n llawn dychymyg am eu syniadau a'u hymatebion eu hunain i'r hyn y maent yn ei astudio. • Defnyddio geirfa allweddol am ysbrydolrwydd yn gywir i fyfrio ar grefydd, ysbrydolrwydd a llesiant	Cysylltiadau â MDPH y Dyniaethau: Gan ganolbwyntio ar CGM, mae'r deunyddiau hyn hefyd yn cyfeirio at Astudiaethau Cymdeithasol a Hanes, gan adlewyrchu cymhlethdod ein bywydau cymunedol. Adnoddau allweddol: Mae <i>Picturing Christianity</i> a <i>Picturing Jesus</i> o wefan RE Today yn adnoddau defnyddiol. Mae gwefannau y cyfeirir atynt yn y nodiadau addysgu a dysgu yn darparu gwybodaeth werthfawr am y thema. Noder: anfonwch enghreifftiau o'r traethodau hyn gan eich dysgwyr at lat@retoday.org.uk i'w defnyddio'n genedlaethol.
Adran A: ar gyfer pob dysgwr	1. ... yw fy hoff enghraifft o wydr lliw 2. Roeddwn i'n ei hoffi orau am fod ... 3. Mae'r gwydr lliw hwn yn dangos gwerth ... 4. Mae'r gwydr lliw hwn yn dangos y gred Gristnogol yn lesu trwy ... 5. Roedd y ffenestr lliw a greais i yn ymwneud â ... 6. Ceisiais fynegi fy syniadau trwy ... 7. Mae'r hyn sy'n dda am fy ngwaith, yn fy marn i, fel a ganlyn ... 8. Gwnaeth rhai o'r dysgwyr eraill waith gwych, er enghraifft ...									
Adran B: i herio ymhellach	1. Mae rhai pobl yn Gristnogion. Maent yn defnyddio gwydr lliw ar gyfer... 2. Mae rhai pobl yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, ac efallai y byddant yn defnyddio gwydr lliw ar gyfer ... 3. Mae gwydr lliw yn brydferth am fod ... 4. Mae gwydr lliw yn creu awyrgylch ysbrydol, yn fy marn i, er enghraifft ... 5. Mae gan gelfyddyd gwydr lliw ddyfodol yng Nghymru, yn fy marn i, am fod ... 6. Mae fy hoff enghreifftiau byd-eang o wydr lliw yn cynnwys ... 7. Mae gwydr lliw yn bwysig ledled y byd am fod ... 8. Yr artist gwydr lliw y deuthum i wybod amdano ac yr wyf yn ei edmygu fwyaf yw ... oherwydd ...									
Adran C: i ddarparu rhagor o ddyfnder	1. Yn y gwaith hwn, roedd fy nghynefin fy hun yn cysylltu â'r hyn yr oeddwn wedi'i ddysgu, er enghraifft... 2. Dangosodd hyn rywbeth i mi am fy ysbrydolrwydd fy hun, sef ... 3. Dysgais am y modd y gellir cysylltu celf â chredoau crefyddol, er enghraifft ... 4. Dysgais am fod yn ysbrydol ond heb fod yn grefyddol, ac roeddwn yn hoffi darganfod bod ...									

o gynllunio ar waith, yn unol ag anghenion dysgu eu dysgwyr.		5. Ysbrydolrwydd: yr hyn y mae'n ei olygu i mi yw ... 6. Mae ysbrydolrwydd hyd yn oed yn bwysicach na chrefydd, yn fy marn i, oherwydd ... 7. Rwy'n ystyried fy hun yn unigolyn calon-agored. Rwyf wedi bod yn dysgu oddi wrth ... 8. Mae'r prif negeseuon rwyf wedi eu dysgu o'r gwaith hwn fel a ganlyn ...		personol, gan gyfeirio at enghreifftiau o wydr lliw/gelf.	
--	--	---	--	---	--

Lat Blaylock, RE Today